| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Chwefror 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cymorth Addysg a Chwsmeriaid** |
| **Teitl:** | **Cynnig i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog a sefydlu ysgol fro newydd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynghori'r Cabinet ynglŷn â'r broses y mae angen ei dilyn ar ddiwedd cyfnod yr Hysbysiad Statudol a fyddai'n caniatáu gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cynnig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad?

2.1 Ar ôl cwblhau cyfnod Hysbysiad Statudol mae angen penderfynu a ddylid symud ymlaen i weithredu'r cynnig i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 ac i sefydlu ysgol fro newydd ar y safleoedd presennol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dyma'r argymhellion i'r Cabinet:-

(i) ystyried canfyddiadau'r adroddiad ar wrthwynebiadau.

(ii) yn amodol ar ystyriaeth o'r uchod, cymeradwyo gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 fel bo modd agor ysgol fro newydd ar 1 Medi 2014 gan ddefnyddio safleoedd presennol Clocaenog a Chyfylliog.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Cyhoeddodd y Cyngor Hysbysiad Statudol ar 7 Ionawr 2014 yn hysbysu rhanddeiliaid am y bwriad i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 a sefydlu ysgol fro newydd ar y safleoedd presennol. Daeth cyfnod yr Hysbysiad Statudol, sef 28 diwrnod, i ben ar 3 Chwefror 2014.

4.2 Yn unol â gofynion y cod trefniadaeth ysgolion newydd (http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=cy), cafodd y cynigion eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac yn agos at brif fynedfa'r ysgolion presennol a drafodir yn y cynnig. Yn yr holl ysgolion a drafodir yn y cynnig, rhoddwyd copïau o'r hysbysiad i'w rhannu ymhlith y disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, ac aelodau o staff (caiff yr ysgolion rannu'r hysbysiad drwy e-bost);

4.3. Ar ddiwrnod cyhoeddi'r cynigion, cafodd y canlynol naill ai gopi caled ohonynt, neu ddolen gyswllt wedi'i hanfon drwy e-bost i'r wefan berthnasol:

- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, Llanelwy, ac Awdurdod Esgobaeth Gatholig Wrecsam;
- Corff Llywodraethu Ysgol Clocaenog, Ysgol Cyffylliog, Ysgol Pen Barras, Ysgol Pantpastynog, Ysgol Rhewl ac Ysgol Pantpastynog.;
- Gweinidogion Cymru;
- yr Aelodau Cynulliad (ACau) sy'n cynrychioli Gogledd Cymru, yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol (AS) sy'n cynrychioli Gorllewin Clwyd ac, er gwybodaeth, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli De Clwyd a Dyffryn Clwyd;
- Estyn;
- GwE - y Consortiwm Addysg Rhanbarthol;
- undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff yn unrhyw ysgol a drafodir yn y cynigion;
- Taith - y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- Cynghorau Cymuned Clocaenog, Cyffylliog a Derwen;
- Mudiad Meithrin a Chylch Meithrin Clocaenog;
- Tîm Partneriaeth a Chymunedau Cyngor Sir Ddinbych;

4.4 Roedd yn rhaid mynegi unrhyw wrthwynebiad dros gyfnod yr hysbysiad mewn ysgrifen neu drwy e-bost. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori ar 3 Chwefror 2014, roedd 16 o wrthwynebiadau unigol wedi dod i law'r Cyngor gan aelodau o'r Gymuned, ynghyd â deiseb wedi'i llofnodi gan 144 o unigolion.

**Y Broses**

4.5 Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynigion, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan:

- bod yn **rhaid** i'r penderfynwyr ystyried p'un a oes unrhyw gynigion eraill cysylltiedig;
- bod yn **rhaid** i'r penderfynwyr sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod hwn; http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=cy
- bod yn **rhaid** i'r penderfynwyr sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi'n unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;

- bod yn **rhaid** i'r penderfynwyr ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- bod yn **rhaid** i'r penderfynwyr ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad ar y gwrthwynebiadau, ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sydd o blaid y cynigion;

4.6 O dan adran 54 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, caiff awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno gyfeirio'r cynnig o fewn 28 diwrnod i'w ystyried gan Weinidog Cymru.

4.7 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan yn glir "os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r awdurdod lleol beidio ag ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.3 – 1.14 o'r Cod hwn."

4.8 Wrth ystyried y cynnig, dylai'r Cabinet ystyried y ffactorau a amlygir o fewn y cod sy'n cynnwys ansawdd a safonau mewn addysg, yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion, adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae Atodiad 1, yr Adroddiad ar Benderfyniad, yn rhoi crynodeb i'r Cabinet o'r ffactorau i'w hystyried cyn gwneud penderfyniad ynghylch unrhyw gynnig.

4.9 Yn ychwanegol at hyn, yn unol â Deddf 2013, mae'n ofynnol i'r Cabinet roi ystyriaeth lawn i'r gwrthwynebiadau a gafwyd i'r cynnig o du'r Gymuned. Mae'r gwrthwynebiadau wedi cael eu casglu ynghyd i greu Adroddiad ar Wrthwynebiadau sy'n manylu ar y gwrthwynebiadau a gafwyd ac ymateb yr awdurdod lleol i'r pryderon hyn. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgolion ledled y Sir er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, â'r lleoedd hynny o'r math cywir, ac yn y lleoliad cywir.

**6. Beth fydd yn ei gostio, a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Os caiff yr argymhelliad ei gymeradwyo, nodwyd y byddai un ysgol ar ddau safle'n cynyddu'r gyllideb sydd ei hangen ar gyfer yr ysgol yn ystod y cyfnod interim hwn. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar gostau'r Cyngor oherwydd bydd y cynnydd hwn mewn costau'n cael ei ystyried yn rhan o'r fformiwla ariannu gyffredinol ar gyfer ysgolion, ac fe'i telir yn rhan o'r gyllideb gyfan ar gyfer yr ysgolion.

6.2 Rhagwelir y bydd costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cynyddu o ganlyniad i'r cam cyntaf. Cyfeiriai'r ddogfen Ymgynghori at gynnydd posib o £39k mewn costau, yn dibynnu ar gytuno ar ba safle y byddai disgyblion yn cael eu lleoli yn rhan o drefniadau'r ysgol fro newydd. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd

y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu Dros Dro i gadarnhau'r trefniadau hynny er mwyn tarfu cyn lleied ag sy'n bosib ar rieni a disgyblion, a hefyd i leihau unrhyw gostau cludiant ychwanegol yn sylweddol.

6.3 Er mwyn symud ymlaen i gam dau, bydd angen gwneud gwaith i asesu dichonoldeb y safleoedd posib, ac wedyn y safle a ffafrir. Staff o'r adran Cyllid ac Asedau fydd yn cyflawni'r gwaith hwn. Telir costau'r gwaith o'r dyraniad presennol ar gyfer maes blaenoriaeth Moderneiddio Addysg y Cynllun Corfforaethol, oddi mewn i Raglen Gyfalaf y Cyngor*.*

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid atodi'r templed AEC sydd wedi'i gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Awgrymodd yr AEC a gynhaliwyd ar gyfer y cynnig mai bach fyddai effaith cam cyntaf y cynnig. Byddai datblygu ysgol fro yn cynyddu'r gallu i ymateb i newid yn niferoedd disgyblion ac yn lleihau ystod oedran y plant a addysgir gyda'i gilydd.

## 8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Mae ymgynghoriad llawn wedi cael ei gynnal â'r holl randdeiliaid, ac fe gyflwynwyd canfyddiadau'r Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol i'r Cabinet ar 17 Rhagfyr 2013. Ceir crynodeb o'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol yn yr adroddiad ar wrthwynebiadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Gall costau gwasanaeth trafnidiaeth ysgolion gynyddu o ganlyniad i'r cynnig yma ond bydd unrhyw arbedion yn cronni yng nghyllideb ysgolion ai ail-fuddsoddi mewn addysg. Gall hyn o bosib greu pwysau ar y gyllideb trafnidiaeth. Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllid tuag at foderneiddio addysg a byddai hyn yn ddefnydd teilwng o’r cyllid hwn. Pan fydd y gost yn glir, gall rhan o gyllideb moderneiddio addysg ei symud i gyllideb drafnidiaeth ysgolion i dalu am y cynnydd.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Ceir posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor, a sylwadau anffafriol o du'r cyhoedd.

Er mwyn lleihau'r risg hon hyd yr eithaf, bydd y Cyngor yn ceisio cyfathrebu'n glir â'r holl randdeiliaid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet Ionawr 2009)